# Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

**2010 mccc 1**

## RHAN 1

TLODI PLANT, CYFLEOEDD CHWARAE A CHYMRYD RHAN

## PENNOD 1

DILEU TLODI PLANT

*Strategaethau*

### 2 Strategaethau i gyfrannu at ddileu tlodi plant

(1) Rhaid i awdurdod Cymreig lunio a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru sy'n gosod pob un o'r canlynol—

(a) amcanion a ddewiswyd gan yr awdurdod (yn ddarostyngedig i is-adrannau (3) a (4))—

(i) sy'n ymwneud ag unrhyw un neu unrhyw rai o'r nodau eang i gyfrannu at ddileu tlodi plant, a

(ii) y gellir eu dilyn wrth iddo arfer ei swyddogaethau;

(b) unrhyw amcanion a bennir mewn perthynas â'r awdurdod mewn rheoliadau a wneir o dan is-adran (5);

(c) camau sydd i'w cyflawni a swyddogaethau sydd i'w harfer gan yr awdurdod at ddibenion cyflawni'r amcanion o dan baragraff (a) ac, os pennir unrhyw amcanion mewn perthynas â'r awdurdod mewn rheoliadau o dan is-adran (5), o dan baragraff (b).

(2) Rhaid i awdurdod Cymreig gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r camau ac arfer y swyddogaethau y cyfeirir atynt yn is-adran (1)(c) yn unol â'i strategaeth.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru ac awdurdod lleol ddewis ystod o amcanion o dan is-adran (1)(a) sy'n ymwneud â'r holl nodau eang i ddileu tlodi plant.

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 10/01/2011. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, Adran 2. (See end of Document for details)*

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd ddewis amcanion o dan is-adran (1)(a)—

(a) sy'n ymwneud â'u pwerau i ddarparu cyllid i unrhyw berson, a

(b) sy'n hybu'r nodau eang i ddileu tlodi plant.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru bennu amcanion ar gyfer awdurdod Cymreig mewn rheoliadau—

(a) os yw'r amcanion yn ymwneud ag un o'r nodau eang neu fwy ohonynt ar gyfer cyfrannu at ddileu tlodi plant, a

(b) os caniateir i awdurdod Cymreig ddilyn yr amcanion wrth iddo arfer ei swyddogaethau.

(6) Caiff rheoliadau o dan is-adran (5) hefyd ddarparu nad yw is-adran (1)(a) a pharagraff (c) o'r is-adran honno (fel y mae'n ymwneud ag is-adran (a)) yn gymwys i awdurdod Cymreig i'r graddau a bennir yn y rheoliadau.

(7) At ddibenion yr adran hon, mae cyfeiriad at gam sydd i'w gyflawni neu at swyddogaeth sydd i'w harfer gan awdurdod Cymreig yn gyfeiriad at gam neu swyddogaeth sydd o fewn pwerau awdurdod Cymreig.

(8) O ran darparu ynghylch llunio a chyhoeddi strategaethau, gweler adrannau 3 i 5 o'r Mesur hwn ac adran 26 o Ddeddf Plant 2004 (p. 31).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 2 mewn grym ar 10.4.2010 at ddibenion penodedig, gweler **a. 75(1)**

**I2** A. 2 mewn grym ar 10.1.2011 at ddibenion penodedig gan O.S. 2010/2994, **ergl. 2(a)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 10/01/2011. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, Adran 2.